


# Cylchlythyr Cwsmeriaid y Gwasanaethau Caffael

Gaeaf 2020

**Buddsoddiad  
technoleg  
gwerth  
£13 miliwn  
i gleifion  
gofal dwys  
GIG Cymru**

**Ysbyty Athrofaol y  
Faenor bellach  
ar agor i gleifion**



**Yn y rhifyn hwn**

**Dathliad dwbl wrth i gydweithwyr y  
Gwasanaethau Caffael a Negesydd  
Iechyd gael eu hanrhydeddu yn  
Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y  
Frenhines**

**Y Gwasanaethau Caffael yn  
dathlu llwyddiant yng ngwobrau  
cenedlaethol y Gymdeithas  
Cyflenwi Gofal Iechyd**



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

**Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Gwasanaethau Caffael**

**Shared Services  
Partnership  
Procurement Services**

## Cyflwyniad gan Jonathan Irvine

### Cyfarwyddwr, y Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd

**Eleni daeth yr her fwyaf sylweddol y bydd y rhan fwyaf o weithwyr caffael proffesiynol ledled y byd yn ei hwynebu gydol eu hoes. Mae dyfodiad y Coronafeirws wedi trawsnewid a phrofi rôl ein proffesiwn i'r eithaf a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i ni geisio ennill y rhyfel yn erbyn COVID 19.**

Nid yw'r rhyfel hwn wedi bod yn fwy amlwg nac yn fwy tanbaid yn unman nag o fewn amgylchedd caffael y GIG. Mae llwyddiant Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasaeth GIG Cymru (NWSSP) wrth ymateb i'r her hon a'i brwydro wedi bod yn dipyn o gamp a gafodd ei gydnabod ar lefel genedlaethol a'r DU.

Mae ein hymdrechion ochr yn ochr â'n cydweithwyr yn y GIG yn sicr wedi cyfrannu at gadw Cymru'n ddiogel yn ystod y pandemig. Rwy'n falch iawn o holl gyflawniadau fy nhimau ledled Cymru ym meysydd caffael, dosbarthu a chyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) ac offer arall, cymorth i sefydlu Ysbytai Maes ac ymestyn ein gwasanaethau ar gyfer darparu PPE i'r Sectorau Gofal Cymdeithasol a Gofal Sylfaenol.

Hefyd, gweithredodd ein tîm Comisiynu amrywiaeth o gontractau cymhleth a strategol hanfodol gyda'r sector gofal iechyd preifat i sicrhau na fyddai methiant yng nghapasiti ein hysbytai ac y gellid parhau i ddarparu ymyriadau clinigol brys i'r rhai mwyaf bregus yn ein poblogaeth gleifion yng Nghymru. Byddwch yn gallu darllen mwy o fanylion am rai o'r prosiectau hyn yn y cylchlythyr hwn.

Mae ein mewnbwn yn parhau ar lefel genedlaethol wrth gyflawni'r Cynllun Diogelu'r Gaeaf PPE a'r ymgysylltiad uniongyrchol â chyflwyno'r rhaglenni brechlynnau a phroffion torfol. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant hefyd i'n holl gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau yr ydym wedi cydweithio ac integreiddio â hwy i ddarparu cynnyrch, offer a gwasanaethau COVID-19 sydd eu hangen er mwyn ateb y galw pan fydd ei angen mewn marchnad sy'n heriol yn fyd-eang ac o dan bwysau dwys o ran graddfa a chyflymder y ddarpariaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae hefyd yn braf gallu dathlu llwyddiant gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â COVID sydd wedi parhau i redeg ochr yn ochr â'n prif weithgarwch yn ymateb i'r pandemig. Yn benodol, mae ein staff wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chaffael a defnyddio'r holl gynhyrchion a gwasanaethau yr oedd eu hangen i alluogi agor Ysbyty'r Faenor yn gynharach ym mis Tachwedd. Mae hyn wedi bod yn benllanw misoedd lawer o waith dwys gan ein tîm caffael ymroddedig ac mae graddfa

a gallu Ysbyty newydd y Faenor yn dyst i'w sgiliau proffesiynol.


Rydym hefyd wedi parhau i weithredu contractau cenedlaethol ar draws ein portffolios Clinigol ac Anghlinigol yn ogystal â chanlyniadau llwyddiannus ym meysydd technoleg a gwasanaethau addysg. Byddwch yn gallu darllen ymhellach ar fanylion rhai o'r prosiectau hyn yn y cylchlythyr hwn.

Gan symud ymlaen, rydym wedi ailgychwyn ein prosiect Scan4Safety Wales a gobeithiaf allu adrodd ar gynnydd drwy gydol y flwyddyn nesaf. Mae cynlluniau i ddatblygu ac integreiddio ein timau Gwasanaethau Caffael ymhellach ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ar y gweill ac mae'r symudiad tuag at sefydlu ein Canolfan Ddosbarthu Genedlaethol hefyd yn datblygu'n gyflym. Fodd bynnag, mae'n anodd symud yn rhy bell oddi wrth y gofynion parhaus a osodir ar ein staff a'n hadnoddau gan y ddwy flaenoriaeth o ddelio â'r pandemig a sicrhau bod gennym fesurau gwydn ar waith i liniaru effaith Brexit.

O ran y ddau fater allweddol hyn, rydym yn parhau i ddatblygu ein stoc, ein llinellau cyflenwi a'n gallu dosbarthu i roi'r sicrwydd angenrheidiol i bobl Cymru bod y GIG yn barod i ymateb a goresgyn yr heriau enfawr sydd o'n blaenau. Hoffwn orffen drwy dalu teyrnged unwaith eto i'm staff o fewn y Gwasanaethau Caffael a'r NWSSP yn ehangach am eu holl waith caled, eu hymrwymiad, eu dyfeisgarwch a'u cefnogaeth yn ystod 2020 sydd, yn fy nhyb i, wedi golygu bod Cymru mewn sefyllfa gref i wynebu'r cyfnod nesaf a thu hwnt yn hyderus.

Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel.  
Jonathan



  
**Jonathan Irvine**  
Cyfarwyddwr  
Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd

# Buddsoddiad technoleg gwerth £13 miliwn i gleifion gofal dwys GIG Cymru



## Ysbytai yng Nghymru yn elwa o system monitro digidol uwchdechnoleg newydd ar gyfer pobl ddifrifol wael mewn unedau gofal dwys.

Yn dilyn addewid gan Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i gyflymu gwelliannau digidol ar gyfer gofal critigol, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi llofnodi contract gwerth £13 miliwn gyda'r cyflenwr ASCOM ar 11 Medi 2020. Cefnogwyd y broses gaffael gan staff Caffael NWSSP sydd wedi'u hymgorffori yn y Gwasanaeth Gwybodeg.

Mae'r cytundeb saith mlynedd ar gyfer meddalwedd Digistat ASCOM yn darparu gwasanaeth a reolir ac yn darparu llwyfan technegol i ddatblygu System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru Gyfan (WICIS). Darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd a'r Rhwydwaith Trawma Gofal Critigol.

Bydd arloesi digidol yn trawsnewid gofal critigol drwy awtomeiddio'r broses o gasglu data o'r monitorau a dyfeisiau soffistigedig a ddefnyddir i gefnogi cleifion â salwch neu anafiadau sy'n bygwth bywyd. Gyda phwysau cynyddol ar wasanaethau gofal dwys, bydd lleihau'r baich gweinyddol ar staff GIG Cymru yn rhyddhau mwy o amser ar gyfer gofal cleifion. Mae mwy na 10,000 o bobl yn cael eu derbyn ar gyfer gofal critigol mewn ysbytai yng Nghymru bob blwyddyn.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i staff 14 Uned Gofal Dwys Cymru, gyda chyfanswm o 198 o welyau, gwblhau siartiau papur hirfaith i gofnodi

arwyddion bywyd hanfodol. Bydd awtomeiddio'n sicrhau bod gwybodaeth amser real ar gael ar draws ystod o ddyfeisiau, gan ffurfio rhan o gofnod digidol y claf, gan symleiddio prosesau gofal.

Bydd integreiddio â systemau GIG Cymru yn galluogi staff gofal dwys i:

- Gofnodi asesiadau cleifion yn electronig
- Rheoli presgripsiynau a rhoi cyffuriau wrth ochr y gwely
- Cysylltu ag offer ochr gwely i gofnodi arwyddion bywyd a chydbwysedd hylif
- Cyfrifo sgorau craffter cleifion
- Rheoli heintiau'n well
- Rheoli cynlluniau gofal dyddiol
- Creu adroddiadau ar ganlyniadau ac amcanion adrannau
- Cefnogi anghenion archwilio ac ymchwil cenedlaethol.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei choladu mewn cronfa ddata ddeinamig, y gellir ei defnyddio hefyd i feincnodi yn erbyn systemau gofal iechyd eraill a darparu llwyfan ar gyfer ymchwil a'r posibilrwydd o weithredu gwelliannau artiffisial a yrrir gan ddeallusrwydd mewn gofal dyddiol.



# Buddsoddiad technoleg gwerth £13 miliwn i gleifion gofal dwys GIG Cymru



Vaughan Gething

Dywedodd Mr Gething: "Mae ein gwasanaethau gofal dwys yng Nghymru'n darparu gwasanaethau eithriadol sy'n helpu pobl pan maent yn ddifrifol wael. Bydd cyflwyno'r dechnoleg arloesol hon yn gwella'r gofal y mae cleifion yn ei gael ac yn caniatáu i feddygon a nyrsys dreulio cymaint o amser â phosibl yn gofalu am gleifion. Mae defnyddio technoleg i sicrhau GIG cynaliadwy yn rhan allweddol o Cymru Iachach, ein strategaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru."

Dywedodd yr Athro Tamas Szakmany, arweinydd clinigol cenedlaethol ac ymgynghorydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent: "Bydd y system newydd yn gwneud bywydau staff gofal critigol rheng flaen yn haws drwy dorri gwastraff, dyblygu a'r potensial ar gyfer camgymeriadau. Bydd yn ein galluogi i weithio'n rhwydd ar draws ffiniau sefydliadol, i rannu arferion da ac i weithredu newid a ysgogir gan dystiolaeth yn gyflym."

Ysbyty Athrofaol newydd y Faenor, a fydd yn gwasanaethu ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, fydd y cyntaf i fabwysiadu'r system newydd yn haf 2021. Bydd y broses gyflwyno arfaethedig wedyn yn dilyn yn holl unedau gofal dwys GIG Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am y contract hwn, cysylltwch â Katharine Fletcher, Dirprwy Bennaeth Cyrchu:  
[katharine.fletcher@wales.nhs.uk](mailto:katharine.fletcher@wales.nhs.uk)





# Dathliad dwbl wrth i gydweithwyr y Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd gael eu hanrhydeddu yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines

**Llongyfarchiadau i Claire Salisbury a Paul Buckingham o'r Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd, sydd wedi derbyn MBE a Medal yr Ymerodraeth Brydeinig yn y drefn honno, fel rhan o Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines, am eu cyfraniadau rhagorol i GIG Cymru yn ystod pandemig y coronafeirws.**

Bu Claire, Cyfarwyddwr Caffael Cynorthwyol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn llwyddiannus wrth sicrhau cyflenwadau hanfodol o PPE ar gyfer Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac mewn cyd-destun Cymru gyfan yn ystod yr argyfwng.

Meddai Claire: *"Roedd hi'n anodd iawn sicrhau PPE mewn marchnad doredig, ond rwy'n teimlo mor frwdfrydig dros helpu pobl a dyna pam yr ymunais â'r GIG. Roedd yn ymdrech enfawr i wneud i'r cyfan ddigwydd a llwyddais i sicrhau'r contract ar gyfer y pedair gwlad ac rwyf mor ddiolchgar am y bobl sydd wedi cydnabod fy ymdrechion."*

Dywedodd Claire ei bod yn sioc ac yn bleser derbyn y wobwr a diolchodd i holl staff y GIG sydd wedi gwneud cymaint yn ystod y pandemig: *"Rwy'n falch iawn o dderbyn y wobwr hon ac rwy'n awyddus i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm holl gydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac NWSSP sydd wedi fy nghefnogi i a'm tîm wrth gyflawni ymateb llwyddiannus i Covid gyda GIG Cymru."*

Jonathan Irvine, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd: *"Rwyf wrth fy modd bod MBE wedi'i dyfarnu i Claire yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines. Mae hon yn wobwr haeddiannol iawn sy'n cydnabod yr amser a'r ymdrech enfawr a roddodd Claire ac y mae'n parhau i'w rhoi i gyrchu a sicrhau llinellau cyflenwi hanfodol o PPE ar ran y GIG yng Nghymru. Mae sgiliau a phrofiad Claire wedi bod yn allweddol yn yr hyn a ystyriwyd yn ymateb caffael llwyddiannus iawn gan NWSSP i her COVID."*

*"Rwy'n dymuno pob llwyddiant i Claire ar gyfer ei dyfodol o fewn NWSSP ac unwaith eto rwy'n cynnig fy llongyfarchiadau diffuant iddi am y cyflawniad arbennig hwn ac ar ennill yr anrhydedd. Da iawn Claire."*



Mae Paul, Uwch Reolwr Busnes Caffael ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, wedi chwarae rhan hollbwysig o fewn Tîm Caffael Rheng Flaen Hywel Dda yn ystod pandemig y Coronafeirws gan roi cymorth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd yn ystod her Covid-19.

Meddai Paul: *"Mae'r chwe mis diwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i bawb yn y GIG. Roedd rhan o'm hymateb i COVID-19 yn cynnwys gweithio a chydweithio â llawer o wasanaethau o fewn Hywel Dda a NWSSP i ddatblygu rhwydwaith cyflenwi a dosbarthu lleol. Fel ymdrech tîm yn gweithio ar draws sefydliadau, datblygwyd dulliau ac atebion adrodd newydd i fodloni'r galwadau newidiol ar y GIG."*

*"Roedd darparu PPE y gellir ei aildddefnyddio i sicrhau adnodd cynaliadwy yn un o'n hamcanion allweddol, nid oedd methiant yn opsiwn o gwbl, ac rwy'n falch o'r tîm sy'n parhau i fynd i'r ail filltir bob dydd. Rwyf mor ddiolchgar o gael fy nghydnabod a derbyn y wobwr hon, fodd bynnag, ymdrech tîm oedd hon, a hoffwn dalu teyrnged i bawb sy'n ymwneud â'r ymdrech ar draws NWSSP a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda."*

O ran cydnabyddiaeth Paul, ychwanegodd Jonathan: *"Rwy'n falch iawn o glywed bod Paul wedi ennill Medal yr Ymerodraeth Brydeinig yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines. Mae Paul yn aelod allweddol o Dîm Caffael Rheng Flaen Hywel Dda ac mae wedi cyfrannu'n aruthrol at effeithiolrwydd ein gwasanaeth caffael lleol yn y maes hwn yn ystod y pandemig."*

*"Mae Paul wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i ddarparu gwasanaeth ar y rheng flaen ac mae wedi bod yn gymorth caffael hanfodol i'r Bwrdd Iechyd yn ystod her COVID 19. Rwy'n gwybod y bydd Paul yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'n gwasanaeth caffael yn y dyfodol a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'w longyfarch ar dderbyn y wobwr hon."*

# Anrhydeddu tîm y Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd yng Ngwobrau Trafnidiaeth Cymru



## ENILLWYR Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig

Llongyfarchiadau i dîm Cadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth y Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd, a enillodd y Wobr Cydnabyddiaeth Arbennig yng Ngwobrau Trafnidiaeth Cymru yn ddiweddar.

Cynhelir Gwobrau Trafnidiaeth Cymru bob blwyddyn i gydnabod a dathlu gwaith y genedl ar draws sector y diwydiannau. Enillodd tîm y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth y wobwr am eu cyfraniad rhagorol wrth gefnogi GIG Cymru yn ystod pandemig y coronafeirws.

Meddai Graham Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Caffael – Logisteg a Rheoli Deunyddiau: "Mae'r wobwr hon yn wych i'r holl dîm ar draws y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth. Roedd yn arbennig o braf nodi bod Busnes Cymru wedi creu categori arbennig i gydnabod y gwaith gwydd sydd wedi bod yn digwydd drwy gydol pandemig COVID-19, lle mae'r holl staff wedi camu i'r adwy ac wedi ymgymryd â'r holl heriau o'u blaenau."

Tony Chatfield, Pennaeth Cadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth GIG Cymru: "Cydnabu'r Gwobrau ein hymrwymiad anhygoel a dyfalbarhad y staff yn eu hymateb i Bandemig Covid. Mae'r hyn y mae ein staff wedi'i gyflawni yn anhygoel, ac mae wedi rhagori ar ein disgwyliadau. Yn aml, nid ydynt yn cael eu cydnabod am eu gwaith caled a'u hymroddiad, ac mae'r wobwr hon yn helpu i gydnabod yr hyn y maent wedi'i gyflawni mewn amgylchiadau eithriadol, a sut mae wedi helpu i achub llawer o fywydau."

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwobrau ynghyd â fideo o'r digwyddiad, ar wefan Gwobrau Trafnidiaeth Cymru ar y ddolen <https://www.walestransportawards.co.uk/awards/2020>.

# Cyrchu PPE



Pan darodd pandemig Covid-19 y DU ddechrau mis Mawrth, cafodd NWSSP ei lethu gan gynigion o gefnogaeth gan gyflenwyr newydd a phresennol yn ymwneud â Chyfarpar Diogelu Personol (PPE). Yn fuan wedyn, cafodd y Tîm Cyrchu Clinigol y dasg o sefydlu proses 'brysbennu' i reoli nifer yr ymholiadau'n effeithlon ac yn unol â gofynion archwilio.

Sefydlodd y tîm broses ddogfennu'n gyflym, gan weithio ochr yn ochr â SMTL a chydweithwyr o Dimau Cyrchu eraill i gofnodi ac adolygu pob cynnig cyflenwi ar gyfer eitemau PPE critigol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl gynigion yn dod o ffynonellau cyflenwi cyfreithlon, a oedd yn cynnwys gwirio cefndiroedd cwmnïau, sicrhau bod ganddynt y gallu ariannol i gyflenwi GIG Cymru a'u bod yn gyflenwr PPE sefydledig.

Ar ôl cwblhau'r gwiriadau cychwynnol, rhoddwyd y dasg i'r tîm o sicrhau'r ardystiadau cynnyrch priodol gan bob cyflenwr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl gynhyrchion posibl wedi'u hardystio i'r safonau ansawdd a diogelwch perthnasol. Roedd hon yn rhan hanfodol o'r broses ac roedd yn allweddol er mwyn sicrhau mai dim ond y cynhyrchion a basiodd yr holl wiriadau hyn a symudwyd ymlaen i'r cam archebu. Roedd hyn yn cadw diogelwch a llesiant ein cleifion a'n cydweithwyr yn flaenoriaeth yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae dyled mawr arnom o hyd i'n cydweithwyr yn SMTL am eu harbenigedd a'u cefnogaeth gyda'r rhan hon o'r broses.

O ystyried natur proffil uchel caffael PPE ar anterth y pandemig, roedd y broses hon yn sicrhau mai dim ond cyflenwyr cyfreithlon a ddefnyddiwyd i gyrchu PPE critigol a hefyd na redodd GIG Cymru allan o stoc o unrhyw linellau cynnyrch PPE ar unrhyw adeg. Rhwng 17 Mawrth a 30 Ebrill, ymdriniodd y Tîm Brysbennu Cyflenwyr â thros 2,000 o gynigion o gymorth gan gyflenwyr. Roedd yn ymdrech anhygoel gan bawb a gymerodd ran.

Y Broses Brysbennu Cyflenwyr oedd rhagflaenydd y Broses 'Her Diwydiant' ffurfiol a oruchwyliwyd gan gydweithwyr yn yr Hwb Gwyddorau Bywyd a Diwydiant Cymru.

Mabwysiadwyd y broses a sefydlwyd i ddechrau o fewn y Tîm Cyrchu Clinigol gan yr Hwb Gwyddorau Bywyd ac mae'n dal i gael ei defnyddio i gynorthwyo cyflenwyr newydd i wneud busnes gyda GIG Cymru yn ystod yr argyfwng Iechyd Cyhoeddus digynsail hwn. O ystyried y nifer fach o bobl a oedd yn rhan o'r Gwasanaeth Brysbennu Cyflenwyr gwreiddiol o fewn NWSSP, roedd yn gyflawniad rhyfeddol gan bawb.





# Y Gwasanaethau Caffael yn dathlu llwyddiant yng ngwobrau cenedlaethol y Gymdeithas Cyflenwi Gofal Iechyd

## SEREMONI GWOBRAU HCSA 2020

Llongyfarchiadau i'n hadran Gwasanaethau Caffael sydd wedi bod yn llwyddiannus ar draws nifer o gategoriâu yng ngwobrau cenedlaethol y Gymdeithas Cyflenwi Gofal Iechyd (HCSA). Anrhydeddwyd y Gwasanaethau Caffael i gydnabod y gwaith rhagorol y maent wedi bod yn ei wneud a sut y mae staff wedi parhau i ddangos eu hymroddiad, eu dyfeisgarwch a'u proffesiynoldeb i gefnogi gwasanaethau gofal iechyd cleifion yn barhaus.

Yn y gwobrau, a gynhaliwyd yn rhithwir ar 18 Tachwedd 2020, enwyd tîm Caffael Rheng Flaen Caerdydd a'r Fro NWSSP yn enillwyr ar y cyd yng nghategori Tîm Caffael y Flwyddyn; Cafodd Claire Salisbury o dîm Caffael Rheng Flaen Caerdydd a'r Fro yr NWSSP ganmoliaeth uchel yng nghategori Arweinydd Caffael y Flwyddyn; cafodd y Gwasanaethau Caffael Ganmoliaeth Uchel yn y wobwr Cydweithredu Traws-swyddogaethol mewn cydweithrediad â'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol (Cytundeb Fframwaith Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer Oedolion ag Anableddau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu), a Chanmoliaeth Uchel yng nghategori Technoleg Caffael ar gyfer tîm Caffael Rheng Flaen Caerdydd a'r Fro yr NWSSP (Rhaglen Digidol Gofal Llygaid Cymru Gyfan).

Hefyd, enillodd ein cydweithiwr caffael Paul Sydenham Wobr Cyflawniad Oes y Cadeirydd. Rhoddwyd y wobwr i Paul, a ymddeolodd yn ddiweddar ar ôl dros bedwar degawd a hanner o wasanaeth ymroddedig i gaffael, gan fod ei arbenigedd, ei wybodaeth a'i frwdfrydedd wedi chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau i'r GIG yng Nghymru. Mae Paul hefyd wedi chwarae rhan enfawr o fewn yr HCSA fel cynrychiolydd rhanbarthol Cymru ers dros 20 mlynedd.

I orffen seremoni wobrwyo lwyddiannus iawn, gwnaed holl gymuned caffael a chyflenwi'r GIG yn enillwyr Gwobr Llywydd yr HCSA.

Wrth fyfyrio ar lwyddiannau'r Gwasanaethau Caffael yn y gwobrau dywedodd Jonathan Irvine, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Caffael: "Rwy'n falch iawn bod gwaith Gwasanaethau Caffael NWSSP wedi cael ei gydnabod mor eang drwy ein llwyddiant yng ngwobrau cenedlaethol yr HCSA. Mae ehangder y llwyddiant hwn ar draws nifer o gategoriâu yn dangos ein cyflawniadau mewn sawl maes gweithgarwch caffael ac yn amlygu'r dalent eithriadol rydym yn ei datblygu o fewn ein proffiliau tîm ac arwain. Mae'r cyflawniadau hyn yn arbennig o arwyddocaol eleni o ystyried yr heriau ychwanegol a achoswyd gan her gaffael COVID 19 y bu'n rhaid i staff gyflawni yn ei herbyn. Hoffwn ddiolch i'r holl staff dan sylw a rhoi fy llongyfarchiadau diffuant i enillwyr ein gwobrau."

Ychwanegodd Graham Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Caffael – Logisteg a Rheoli Deunyddiau: "Unwaith eto, mae NWSSP wedi dangos ei fod yn sefydliad sy'n sicrhau rhagoriaeth a gwasanaeth o ansawdd uchel. Rydym wedi ennill gwobrau mewn 6 o'r 10 categori, felly gall pawb sy'n gweithio ym maes Gwasanaethau Caffael a Negesydd Iechyd fod yn falch o'u cyflawniadau. Roedd yn arbennig o braf nodi bod Llywydd yr HCSA – yr Arglwydd Philip Hunt – yn cydnabod ymdrechion holl gymuned gaffael, logisteg a chyflenwi'r GIG am ein hymdrechion drwy gydol pandemig COVID."

Paul Sydenham





# Y Gwasanaethau Caffael yn dathlu llwyddiant yng ngwobrau cenedlaethol y Gymdeithas Cyflenwi Gofal Iechyd

Dywedodd Mark Roscrow MBE, Cyfarwyddwr Rhaglen Gwasanaethau Caffael a Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr, HCSA:

*"Fel Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr gallwch werthfawrogi ei bod yn anodd iawn trefnu'r gynhadledd ar-lein a rhedeg y broses wobrwyo arferol. Yn gyntaf, hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i bawb a helpodd i'w wneud yn ddigwyddiad mor wych. Hoffwn longyfarch pawb a fu'n llwyddiannus naill ai o ran ennill gwobr neu ennill statws canmoliaeth uchel. Rwy'n gwybod bod y beirniadu'n eithriadol o anodd gyda chymaint o opsiynau da iawn. Roeddwn hefyd wrth fy modd gyda gwobr y Llywydd a dylai'r holl staff deimlo'n haeddiannol falch o'r gydnabyddiaeth hon am eu gwaith gwych. Roedd hefyd yn bleser gennyf gyflwyno gwobr y Chadeirydd i Paul Sydenham i gydnabod popeth y mae wedi'i wneud dros HCSA dros nifer o flynyddoedd."*

*"Byddai wedi bod yn braf cyflwyno'r gydnabyddiaeth mewn cinio gwobrwyo ond yn amlwg doedd hynny ddim yn bosib felly gobeithio bod y timau a'r unigolion wedi llwyddo i drefnu rhyw fath o gydnabyddiaeth. Gobeithio y gallwn ddod at ein gilydd y flwyddyn nesaf ac y bydd Cymru unwaith eto'n gosod y safon nid yn unig yn nifer y cyflwyniadau ond hefyd yn eu llwyddiant."*



Claire Salisbury

Wrth ennill Gwobr Tîm y Flwyddyn dywedodd Claire Salisbury, Cyfarwyddwr Caffael Cynorthwyol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro), y Gwasanaethau Caffael: *"Rwyf wrth fy modd bod tîm lleol Caerdydd a'r Fro wedi cael ei gydnabod yn y Gwobrau Cenedlaethol. Mae'r tîm yn dangos yn gyson eu gallu i fynd y tu hwnt i'r disgwyliadau, drwy weithio fel tîm a chydweithio. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod yr ymateb i Covid-19 pan ragorodd y tîm wrth gefnogi'r Bwrdd Iechyd Prifysgol a Chymru Gyfan i gyflawni eu hamcanion strategol."*

O ran cael Canmoliaeth Uchel yng nghategori Arweinydd Caffael y Flwyddyn, ychwanegodd Claire:

*"Rwy'n falch iawn o dderbyn y ganmoliaeth uchel am y wobwr hon ac rwy'n dymuno manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm holl gydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac NWSSP sydd wedi fy nghefnogi i a'm tîm i sicrhau blwyddyn ac ymateb COVID llwyddiannus iawn i GIG Cymru. Rwy'n teimlo'n ffodus fy mod mewn sefyllfa i weithio gyda phobl mor anhygoel, sydd wedi fy nghefnogi i gyflawni'r strategaeth o gael prosiectau/contractau arloesol sydd wedi arwain at y canlyniad llwyddiannus i Gymru ar sail leol, ranbarthol a chenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i holl staff y GIG sydd wedi gwneud cymaint yn ystod y pandemig i'n cleifion ac rwy'n cydnabod fy ngwobr fel adlewyrchiad o'u holl ymdrechion."*

Mark Roscrow MBE



# Ysbyty Athrofaol y Faenor bellach ar agor i gleifion

Ar ôl cyfnod adeiladu o 3 blynedd, mae Ysbyty Athrofaol y Faenor (GUH) bellach ar agor. Er ei fod yn darparu canolfan ragoriaeth yng Ngwent a De Powys i drin cleifion ag afiechydon ac anafiadau difrifol, mae hefyd yn cynrychioli newid ehangach yn y ffordd y bydd bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) yn darparu Gofal Iechyd yn y dyfodol.

Bydd agoriad cynnar yr ysbyty sydd â 560 gwely (gan gynnwys trolïau a chotiau) yn rhoi cymorth ar unwaith i gymunedau'r Bwrdd Iechyd. Gyda heriau tymhorol a'r galwadau ychwanegol oherwydd pandemig Covid-19.

Bydd ffocws GUH ar Feddygaeth Frys, Gofal Critigol a Gwasanaethau Arbenigol yn caniatáu i'r tri ysbyty cyffredinol lleol wedi'u gwella, sef Ysbyty Brenhinol Gwent, Neuadd Nevill ac Ysbyty Ystrad Fawr, ddarparu gofal aciwtedd is, gan gynnwys unedau mân anafiadau ac asesu, ac fe'u cefnogir yn eu tro gan rwydwaith o ysbytai cymunedol.

Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn trin mwy o bobl nag erioed o'r blaen. Mae gan ABUHB brif nod o ddarparu gofal diogel o ansawdd uchel, cynnal iechyd a lles y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu, lleihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau cynaliadwyedd. Tipyn o gamp yn y byd sydd ohoni, ond mae hyblygrwydd o ran dull gweithredu a chymryd camau i wella'r ffordd y cefnogir ac y gofelir am bobl.

Mae agor GUH a'r addasiadau i wasanaethau mewn ysbytai eraill yn dyst i ymrwymiad ABUHB i gynnal gwasanaethau diogel a chynaliadwy i gymunedau lleol; mae cael y staff cywir yn y lle iawn ar gyfer gofal yn sicrhau'r safonau gofal uchaf ar gyfer cleifion.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau yn GUH ar y [ddolen](#) ganlynol.



# Y Diweddaraf gan y Tîm Meddygol

## Gweithgorau ac Ymgysylltu â Defnyddwyr

O ganlyniad i bandemig COVID-19 mae'r ffordd rydym yn ymgysylltu â defnyddwyr clinigol fel rhan o brosesau contract a rheoli yn cael ei haddasu, mae pob cyfarfod gweithgor o fewn y Tîm Cyrchu Meddygol bellach yn cael ei gynnal yn rhithiol drwy Microsoft Teams.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu sut y bydd y tîm yn cynnal gwerthusiadau ansawdd cynnyrch gyda defnyddwyr clinigol wrth symud ymlaen, ac rydym yn gweithio gyda gweithgorau unigol ar gynllunio prosesau gwerthuso yn unol â'r canllawiau a'r rheoliadau cyfredol.

O fewn y 6 mis nesaf byddwn yn cynnal gweithgorau ar gyfer Rheoli Tymheredd Cleifion, Offeryniaeth Electrolawfeddygol, Offerynnau a Defnyddiau Traul Laparosgopig, Deunyddiau Tafladwy Theatrau, Ategolion Mynediad Fasgwlaidd, a Rheoli'r Llwybr Anadlu.

Pe bai gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o unrhyw weithgorau yn y dyfodol, cysylltwch â'ch Tîm Caffael Rheng Flaen neu drwy'r [Tîm Meddygol](#) am ragor o wybodaeth.

## Dyfarniadau Contractau

Mae'r tîm Meddygol wedi cael ychydig fisoedd prysur gyda'r contractau canlynol yn cael eu dyfarnu, yn gyffredinol mae'r contractau hyn wedi rhoi cyfle i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau o fewn GIG Cymru arbed dros £285k, mae cyfleoedd arbed pellach ar gael hefyd pe bai Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth yn dymuno safoni a rhesymoli gwariant.

Ceir trosolwg cryno o'r dyfarniadau gyferbyn, mae'n bosibl bod dyfarnu'r cytundebau hyn wedi cael effaith ar argaeledd eitemau o'r catalog neu siopau'r Gwasanaethau Caffael.

Dosbarthwyd gohebiaeth ar y newidiadau hyn a'r effaith ar Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ar adeg y dyfarnu, i gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd neu newidiadau, cysylltwch â'r Tîm Meddygol drwy [e-bost](#) gan ddyfynnu'r cyfeirnod perthnasol isod.

Tîm	Adran	Teitl y Prosiect	Cyf	Dechrau
CYRCHU – MEDDYGOL A CHLINIGOL	ANESTHETEG ANADLU A MEWNWYTHIENNOL	DRESIN MEWNWYTHIENNOL	MED OJEU-41929	01/08/20
CYRCHU – MEDDYGOL A CHLINIGOL	DEUNYDDIAU TRAU THEATR	CYNWYSYDDION SUGNO A LEININ	MED OJEU-40809	01/08/20
CYRCHU – MEDDYGOL A CHLINIGOL	ANESTHETEG ANADLU A MEWNWYTHIENNOL	NODWYDDAU ARBENIGOL A CHWISTRELLI	MED OJEU-41931	01/09/20
CYRCHU – MEDDYGOL A CHLINIGOL	ANESTHETEG ANADLU A MEWNWYTHIENNOL	MYNEDIAD FASGWLAIDD ARBENIGOL	MED OJEU-41927	01/10/20
CYRCHU – MEDDYGOL A CHLINIGOL	ANESTHETEG ANADLU A MEWNWYTHIENNOL	LARYNGECTOMI A DEUNYDDIAU TRAU TRACEOSTOMI	MED OJEU-43237	01/10/20

## Dresin Mewnwythiennol

Mae'r cytundeb hwn yn canolbwyntio ar ddresin gwrthficrobaidd, lled-athraidd ac athraidd i anwedd, gyda'r cytundeb newydd hefyd yn cynnwys disgiau clorhecsidin, a ddefnyddir fel dewis arall yn lle dresin clorhecsidin i leihau'r haint o amgylch y safle mewnosod pan fydd cathetr gwythiennol canolog yno.

Bydd y cytundeb yn rhedeg am gyfnod o 4 blynedd ac mae wedi sicrhau arbediad o fwy na £139k ar sail Cymru Gyfan.

## Cynwysyddion Sugno a Leinin

Mae'r cytundeb hwn ar gyfer darparu'r holl Gynwysyddion Sugno, a'u leinin a'u ategolion cysylltiedig ar draws GIG Cymru, ac mae'r cytundeb hefyd yn cynnwys darparu unedau sugno cludadwy nad ydynt wedi'u cynnwys yn flaenorol mewn unrhyw gytundebau Cymru Gyfan.

Bydd y cytundeb yn rhedeg am gyfnod o 4 blynedd ac mae wedi sicrhau arbediad o fwy na £47k ar sail Cymru Gyfan.





# Y Diweddaraf gan y Tîm Meddygol

## Nodwyddau a Chwistrelli Arbenigol

Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys darparu Nodwyddau Pin Inswlin, Diogelwch Nodwyddau Pin Inswlin, Chwistrelli Inswlin a Chwistrelli Halwynog wedi'u Llenwi ymlaen Llaw.

O'r blaen, roedd y cytundeb yn cynnwys yr holl nodwyddau ac ategolion asgwrn cefn ac epidwral, mae deddfwriaeth newydd, â'r nod o gynorthwyo ac atal meddyginiaeth anghywir rhag cael ei rhoi'n fewnweiniol, wedi golygu, wrth i'r cynhyrchion hyn newid o ran eu dyluniad, eu bod wedi'u tynnu o'r contract hwn a'u rhoi o fewn eu cytundeb eu hunain.

Bydd y cytundeb yn rhedeg am gyfnod o 4 blynedd ac mae wedi sicrhau arbediad o fwy na £114k ar sail Cymru Gyfan.

## Mynediad Fasgwlaidd Arbenigol

Mae Canwlâu a Chathetrau mewnwythiennol fel categori wedi esblygu dros y blynyddoedd, sydd wedi esblygu'r ffordd yr ydym yn caffael y nwyddau hyn ar sail Cymru gyfan.

Mae'r hyn a ddechreuodd fel ffocws ar ganwlâu sylfaenol a nodwyddau mewnwythiennol i Gymru wedi tyfu'n gytundebau lluosog ar gyfer yr holl defnyddiau traul sydd eu hangen i drin cleifion yng Nghymru.

Mae gan y Gwasanaethau Caffael 4 cytundeb sy'n cydymffurfio ar gyfer Cymru sy'n berthnasol i'r maes categori hwn.

Ar gyfer canwlâu a nodwyddau mewnwythiennol diogelwch sylfaenol mae gennym Ddyfeisiau Mynediad Fasgwlaidd, lle mae angen eitem fwy arbenigol, mae'r cytundeb hwn wedi'i drawsnewid i fodloni gofynion o'r fath, ar gyfer pob dyfais ddi-nodwydd mae Ategolion Mynediad Fasgwlaidd, ac ar gyfer dresin a dyfeisiau sefydlogi ceir cytundeb Dresin Mewnwythiennol.



Mae Mynediad Fasgwlaidd Arbenigol yn cynnwys y deunyddiau traul canlynol:

- Cathetrau Gwythiennol Canolog (CVC)
- Cathetrau Llinell Ganol
- Cathetrau Mewnosod Ymylol (Llinell Picc)
- Nodwyddau Mynediad Cathetr
- Cathetrau Mewnblannu
- Canwlâu Rhydweiliol
- Nodwyddau Mewnesgyrnol (i'r gosod â llaw a chyda dyfais gyrru).

Mae'r cytundeb wedi sicrhau arbediad o dros £2k y flwyddyn ar sail Cymru gyfan a bydd yn rhedeg am gyfnod o 4 blynedd.

## Defnyddiau Traul Laryngectomi a Thraceostomi

Mae'r cytundeb hwn ar gyfer darparu'r holl nwyddau traul Laryngectomi a Thraceostomi gan gynnwys Tiwbiau Traceostomi, Dalwyr Tiwbiau Traceostomi, Deunydd Glanhau Traceostomi, Deunydd Gwarchod Traceostomi, Stydiau Stomâu, Cyfarpar Triniaeth drwy'r Croen, Tiwbiau Laryngectomi, Prosthesis Llais, Cyfarpar Cricothyrotomi, Canwlâu Mewnol, Hidlwyr Traceostomi HME, a Setiau Tyllau Traceostomi.

Mae'r cytundeb hwn yn rhedeg am gyfnod o 4 blynedd, mae cyfleoedd arbed lluosog ar gael i Fyrddau Iechyd o dan y cytundeb hwn, i gael rhagor o wybodaeth ac i drafod cyfleoedd arbed sydd ar gael cysylltwch â'r [Tîm Meddygol](#).



# Tîm Comisiynu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg: Y Diweddraf am ein Gweithgarwch

## Tîm Comisiynu



Mae'r tîm wedi bod yn weithgar mewn nifer o feysydd gweithgarwch allweddol a phwysig yn ddiweddar:

Darparu capasiti llawfeddygol, clinigol a diagnostig ychwanegol ar gyfer GIG Cymru

Gyda phwysau sylweddol ar wasanaethau aciwt yn ystod cyfnod COVID, mae'r tîm wedi bod yn cefnogi WHSSC i sicrhau capasiti llawfeddygol, clinigol a diagnostig ychwanegol gan ddarparwyr nad ydynt yn rhan o GIG Cymru. Sicrhawyd capasiti ysbytai cyfan ym mhob ysbyty preifat yng Nghymru ar y cyd â'r Rhwydwaith Darparwyr Gofal Iechyd.

Roedd yr holl gytundebau'n cyd-fynd yn agos â threfniadau GIG Lloegr. Roedd y cytundebau'n gymhleth eu natur ond roeddent yn rhoi mynediad brys i GIG Cymru at ymyriadau cleifion allanol ac ymyriadau llawfeddygol brys gan gynnwys achosion cancer brys.

Roedd pob ysbyty preifat yng Nghymru, yn cael ei ddefnyddio hyd at wahanol raddau o gapasiti hyd at 31 Rhagfyr 2020, ac mae hynny'n dal yn wir.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ar opsiynau yn y dyfodol ar ôl mis Rhagfyr 2020.

## Gwelyau "ymchwydd" Iechyd Meddwl

Yn ogystal â'r uchod, mae'r tîm hefyd wedi bod yn weithgar wrth sicrhau gwelyau capasiti ymchwydd ychwanegol i gleifion ag Anableddau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn ystod cyfnod o bwysau sylweddol ar y system. Roedd hyn hefyd yn ymestyn i sicrhau gwelyau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r Uned Gofal Dwys Seiciatryddol (PICU). Roedd cydgysylltu capasiti ychwanegol ar sail genedlaethol yn sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel, yn gweithredu i safonau y cytunwyd arnynt ac yn cynnig gwerth am arian ar ran Byrddau Iechyd.

## Diweddariad ar weithgarwch parhaus

O ran gweithgareddau busnes fel arfer, mae'r tîm Comisiynu wedi bod yn gweithio'n agos drwy gydol y pandemig gyda nifer o'n rhanddeiliaid allweddol. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda:

Tîm Addysg, Comisiynu ac Ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru i sicrhau bod Rhaglenni Addysg a Hyfforddiant Iechyd Proffesiynol yn cael eu darparu'n genedlaethol er mwyn sicrhau bod addysg ar gyfer gweithlu GIG Cymru yn y dyfodol yn parhau. Mae hwn yn ymarfer caffael cymhleth a manwl.



# Tîm Comisiynu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg: Y Diweddraf am ein Gweithgarwch



Cafodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA), a ariennir gan gronfeydd Llywodraeth Cymru sydd wedi'u clustnodi, ei effeithio gan adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (MHA) yn 2019 a'r Papur Gwyn arfaethedig, sydd wedi'i ohirio oherwydd effaith y pandemig.

Yn dilyn trafodaethau manwl, bydd NWSSP yn parhau â'r ymarfer caffael arfaethedig, gan sicrhau bod y cytundeb yn y dyfodol yn caniatáu ar gyfer addasiadau angenrheidiol yn unol â chanlyniad argymhellion Papur Gwyn y Llywodraeth.

Bydd yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru'n comisiynu'r gwaith o weithgynhyrchu uned symudol ar olwynion ar gyfer darparu gofal clinigol ac anghlinigol, gyda'r ateb yn gallu cael ei roi ar waith yn gyflym ar y safle a'i gomisiynu ar gyfer gwasanaethau o fewn cyfnod byr i leddfpu pwysau'r Adran Achosion Brys i drosglwyddo cleifion nad ydynt yn rhai brys.

## Prosiect Datrysiaid Radiotherapi Integredig Felindre

Mae cymorth Caffael Sylweddol yn cael ei ddarparu i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar brosiect strategol cymhleth i gymryd lle offer Trin Canser presennol a systemau digidol cysylltiedig.

Mae'r gofyniad yng Nghanolfan Ganser bresennol Felindre i ddechrau ac o bosibl yng Nghanolfan Ganser newydd arfaethedig Felindre a Chanolfan Radiotherapi Ategol (fel rhan o Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn Ne-ddwyrain Cymru).

Mae'r broses gaffael, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020, yn cael ei chynnal o dan broses Deialog Cystadleuol o ystyried natur gymhleth y trefniadau clinigol a masnachol. Mae'r broses sy'n cael ei chynnal yn rhithwir sy'n her ynddi'i hun.

Mae'r cwmpas yn bennaf yn cynnwys Peiriannau Triniaeth, System Cynllunio Triniaeth a System Gwybodaeth Oncoleg ymhlith llawer o nodweddion eraill. Disgwylir y dyfarniad yng Ngwanwyn 2021.






# Tîm Comisiynu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg: Y Diweddaraaf am ein Gweithgarwch

## Diweddariad y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg

*Cyflwyno Consultant Connect i gefnogi gofal cleifion*



Mae Consultant Connect yn ap ffôn arloesol sy'n caniatáu i gleifion gael cyngor yn gyflym gan amrywiaeth o ymgynghorwyr ysbyty neu feddygon teulu. Yn ystod y pandemig, pan nad oedd ymgynghori wyneb yn wyneb ar gael yn rhwydd, mae'r llwyfan cyfathrebu wedi bod yn amhrisiadwy i gleifion a chlinigwyr.

Cwblhaodd Tîm Caffael IM&T NWSSP y broses o fewn wythnos, gyda gwerth blynyddol o £650k. Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'n defnyddio'r contract.

Mae meddygon teulu neu glinigwyr arall yn defnyddio'r gwasanaeth naill ai drwy ddeialu rhif ffôn neu ddefnyddio'r ap Consultant Connect. Ar ôl dewis arbenigedd o ddewislen cânt eu cysylltu ag arbenigwr mewn 25 eiliad ar gyfartaledd.

Dywedodd Gweinidog Iechyd Cymru, Vaughan Gething, yn lansiad yr ap ym mis Mai 2020: "Rwy'n falch iawn ein bod yn gallu dechrau cyflwyno'r ap Consultant Connect yn GIG Cymru. Bydd hyn yn helpu i gefnogi gofal sylfaenol i benderfynu ar y driniaeth gywir i'w cleifion."

"Bydd yn arbed amser hanfodol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn lleihau faint o ymweliadau ysbyty sydd eu hangen ar gleifion, ar adeg pan fo ein GIG yn wynebu pwysau ychwanegol. Yn y tymor hir mae defnyddio'r dechnoleg hon yn rhan bwysig o'n cynllun ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach. Mae manteisio i'r eithaf ar dechnoleg yn hanfodol er mwyn i ni adeiladu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol modern, lle caiff gofal ei ddarparu'n nes at gartref."

## System Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth


Contract fframwaith i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ddefnyddio system adborth amser real i gasglu gwybodaeth werthfawr gan gleifion, rhoddwyr, ymwelwyr, perthnasau ac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau GIG Cymru. Fframwaith 4 blynedd; amcangyfrifir bod gwerth y contract yn £1 miliwn.

## Cronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD)

Mae'r HRD yn darparu mecanwaith dienw ar y we ar gyfer cofnodi gweithgarwch sy'n ymwneud â'r ystod o wasanaethau lleihau niwed a ddarperir i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae'r data cleientiaid unigryw a gesglir yn cynnwys gwybodaeth gyswllt ddemograffig, iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â data gweithgaredd lefel gwasanaeth. Dyfarnwyd contract 3 blynedd.



# Y Diweddaraf gan y Tîm Anfeddygol



## Hylif Saniteiddio Dwylo

Yn dilyn galwad i'r diwydiant yng Nghymru amrywiaethu i gefnogi'r GIG daeth nifer o gwmnïau lleol ymlaen i helpu i gynhyrchu Hylif Saniteiddio Dwylo ac Iwnifform Nyrsys i ymdopi â'r galw digynsail.

O ganlyniad, dargyfeiriodd nifer o gwmnïau gan gynnwys Welsh Whiskey Company Ltd (Distyllfa Penderyn), The Gower Gin Company, a Bottlers Distillers Wales, Fiddes Wood Finishes a BCB International eu hethanol i gynhyrchu Hylif Saniteiddio Dwylo yn dilyn Fformiweiddiad 1 Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae Fformiweiddiad 1 y WHO yn gofyn am gynnwys Alcohol terfynol o rhwng 75 ac 80% (+/-5%) ac uwch ac yn datgan bod ei fformiwlâ'n cydymffurfio â BS EN 1500. Cadarnhaodd y cynhyrchion a gyflwynwyd gan y cwmnïau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol y Gweithrediaethau Iechyd a Diogelwch ar gyfer cyflwyno Hylifau Saniteiddio Dwylo Biodladdol i Farchnad y DU (Rheoliad Cynhyrchion Biodladdol (BPR) Erthygl 55).

Cafodd data/dogfennau'r cynnyrch eu dilysu ar gyfer NWSSP fel rhai sy'n cydymffurfio â gofynion Fformiweiddio Sefydliad Iechyd y Byd gan y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol (SMTL).

Mae'r ystod o hylifau a gynhyrchir gan y Cwmnïau yn cael eu cyflenwi ar hyn o bryd i GIG Cymru ac maent ar gael mewn amrywiaeth o feintiau rhwng 1ltr a 100ml. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid Cadwyn Gyflenwi NWSSP i gael manylion cynnyrch.

## Iwnifform Nyrsys

Gyda'r anawsterau a wynebwyd gan Gadwyni Cyflenwi ledled y byd gyda dyfodiad y pandemig, daeth y rhuthr i sefydlu llinellau cyflenwi newydd yn y DU i sylw.

Gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, aeth Alexandra ati i sefydlu ffynhonnell gyflenwi yn nes at gartref. Gan gysylltu â gwneuthurwyr dillad Cymru a mwy na 100 o grwpiau cymunedol a Diwydiannau Cartref, mae Alexandra wedi gallu cefnogi Ymddiriedolaethau Byrddau Iechyd gyda'r gallu i ddarparu Gwisgoedd Sgrybs Glas Tywyll i'w Staff a'u Gwirfoddolwyr, tra'n cefnogi Economi Sefydledig Cymru.



## Diolch am ddarllen ein cylchlythyr

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r erthyglau a gynhwysir yn y cylchlythyr hwn neu gyflwyno erthygl ar gyfer y rhifyn nesaf, cysylltwch ag: [alex.curley@wales.nhs.uk](mailto:alex.curley@wales.nhs.uk)

## Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol

